Charles Wesley 1707–1788

Sylfaenydd Methodistiaeth ac emynydd

Ganwyd Charles Wesley ar 18 Rhagfyr 1707 yn Rheithordy Epworth, Swydd Lincoln, yn unfed plentyn ar bymtheg i Samuel a Susanna Wesley ac yn frawd iau i John Wesley. Daeth ei chwaer hŷn Hetty yn ddiweddarach yn enwog fel bardd.

Baban cynamserol ydoedd ac fe'i lapiwyd yn syth ar ôl ei eni mewn gwlân meddal. Nid agorodd ei lygaid na llefain tan yr oedd yn ddau fis oed. Daeth yntau o dan ddylanwad disgyblaeth gadarn a threfnus ei fam Susanna. Aeth i ysgol Westminster ym 1716 dan adain ei frawd mawr Samuel a oedd yn ystlyswr yno. Fe'i trwythwyd mewn egwyddorion uchel eglwysig Toriaidd. Gwnaeth yn dda yn yr ysgol, daeth yn gapten ac yr oedd yn mwynhau actio. Wedi iddo fatriciwleiddio ym 1726 fe aeth yn 1727 yn fyfyriwr i goleg Eglwys Crist, Rhydychen, gydag ysgoloriaeth o £100 y flwyddyn. Enillodd radd BA ym 1730 a MA ym 1733. Yn y coleg, heb ddylanwad trwm teuluol, teimlai yn llawer mwy rhydd a dechreuodd fyw bywyd mwy llac. Byddai'n mynd am dripiau i Lundain a dechreuodd ymhél ag actoresau Llundeinig. Awgrymodd ei frawd John Wesley y dylai fod yn fwy difrifol ond ymatebodd gan ddweud, 'What? Would you have me to be a saint at once?'

Ordeiniwyd ef yn ddiacon ac offeiriad ar 5 a 12 Hydref 1735. Ar y pryd roedd ef yn ddigon parod i dreulio gweddill ei ddyddiau yn Rhydychen ond perswadiwyd ef gan ei frawd John i fynd i Georgia, Unol Daleithiau America. Yno gweithiodd fel ysgrifennydd i James Edward Oglethorpe ond nid oedd yn gyfnod da iddo gan ei fod yn dioddef o salwch ac iselder. Dychwelodd i Loegr ac wedi mordaith anodd glaniodd yn Rhagfyr 1736.

Yn y cyfnod dilynol bu'n ystyried cyflwr ei enaid a materion ysbrydol. Roedd llawer o'i ffrindiau yn trafod gweithiau'r awdur defosiynol William Law ac yn sôn am 'ailenedigaeth' a 'newid mewnol'. O dan ddylanwad y Morafiad Peter Böhler daeth y ddau frawd i dderbyn y syniad o gyfiawnhad trwy ffydd a brofwyd trwy dröedigaeth sydyn. Charles ddaeth

i brofiad gyntaf a hynny ar 21 Mai 1738. Fe'i hysgogwyd gan eiriau un o'r Morafiaid, 'I found myself converted, I knew not how nor when. I found myself at peace with God and rejoiced in hope of loving Christ.' Trwy'r profiad hwn taniwyd ei ddoniau barddonol ac yn fuan ysgrifennodd yr emyn, 'When shall my wondering soul begin'. Ystyrir Charles Wesley fel un o'r emynwyr mwyaf yn hanes Lloegr. Yn ystod ei oes cyfansoddodd 9,000 o gerddi ac emynau. Yn ei emynau roedd yn aml yn mynegi cariad Duw, ei gred a'i deimladau yn gryno ac mewn ffordd ddealladwy i'r person cyffredin.

Yn dilyn hyn treuliodd ei amser yn pregethu ac yn tystio i unigolion a chriwiau bychain am ei ffydd newydd. Yn 1738 siaradodd gyda charcharorion yng ngharchar Newgate oedd wedi eu condemnio i farwolaeth. Parhaodd i wneud hyn trwy gydol ei oes. Dechreuodd bregethu heb nodiadau ac oherwydd hynny dylanwadai lawer mwy ar ei wrandawyr, a dilynodd ôl traed ei frawd John a George Whitefield trwy ddechrau pregethu yn yr awyr agored. Ar y dechrau roedd prif lwyddiant eu gwaith rhwng Llundain a Bryste ond yn raddol ehangodd cylch eu dylanwad i Gymru, gogledd Lloegr, Cernyw, Iwerddon a'r Alban. Golygai hyn deithio miloedd o filltiroedd ar droed ac ar gefn ceffyl ar hyd a lled Prydain. Ym mhedwardegau'r ganrif bu'n rhaid iddynt wynebu erledigaeth gan dorfeydd treisgar a wrthwynebai'r Methodistiaid.

Cyfarfu Charles Wesley Sarah Gwynne o Frycheiniog a syrthiodd mewn cariad â hi. Fe'u priodwyd yn eglwys Llanllywenfel ar 8 Ebrill 1749. Aeth Charles Wesley ar ei daith bregethu olaf i ganolbarth Lloegr ym 1756 ac yna rhoddodd y gorau i grwydro. Bu'n cadw golwg ar y gwaith ym Mryste hyd 1771 pan symudodd i Marylebone, Llundain. Trwy'r blynyddoedd fe gadwodd yn ffyddlon i'r Eglwys Wladol gan wrthwynebu unrhyw sôn hyd yn oed gan ei frawd y dylai'r Methodistiaid dorri cysylltiad â hi.

Bu farw yn 80 mlwydd oed ar 29 Mawrth 1788 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent eglwys y plwyf, St Mary's, Marylebone, ar 5 Ebrill.